**Pentwyn**
**Cyfle i Denant Busnes**
**Garddio Marchnad neu Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned**

**Cyflwyniad**

Mae Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed yn chwilio am denant a phartner busnes posib i gynnal garddwriaeth fwytadwy ar Fferm Pentwyn, Heol Llanbister, LD1 5UT

Mae gennym fyngalo 2 ystafell ar y safle a hyd at 4 acer o dir, gan gynnwys opsiynau storio, ar gael ar gyfer prydles.

Rydym yn chwilio am geisiadau o ddiddordeb gan bobl sy'n cefnogi ein gweledigaeth ac sy'n dymuno cynyddu'r gwaith o gynhyrchu ffrwythau a llysiau ffres ar gyfer marchnadoedd lleol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym yn agored i geisiadau gan unigolion o bob cefndir, boed yn gynhyrchwyr profiadol neu'n sefydliadau sefydledig, neu newydd-ddyfodiaid.

**Datgan diddordeb**

Anfonwch unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i James Hitchcock, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed, ar james@rwtwales.org

Cofiwch gynnwys gwybodaeth am pam fod gennych chi ddiddordeb, ac a fyddai gennych chi ddiddordeb mewn rhentu'r byngalo o fewn y trefniant. Amlinellwch unrhyw gynlluniau, gan gynnwys model busnes amlinellol, os yn bosibl.

Os ydych chi eisiau ffonio a siarad â James am ragor o wybodaeth, gallwch gysylltu ag ef ar 07949 828589

**Trosolwg**

Ym mis Hydref 2021, prynodd Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed fferm fynydd 164 erw o'r enw Pentwyn. Mae gennym ni weledigaeth 30 mlynedd i gynyddu byd natur ar y safle, gan ddangos beth y gellir ei gyflawni gyda ffermio 'natur yn gyntaf'. Rydym am arddangos model newydd ar gyfer ffermio cymysg wrth i ni symud trwy gyfnod o bontio cenedliadol yn y ffordd y mae rheoli tir yn cael ei ariannu a'i gefnogi ac wrth i Gymru a'r Deyrnas Unedig ail-leoli eu hunain fel marchnad fwyd a chynhyrchwyr yn dilyn ein hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd.

Rhan sylweddol o'n gweledigaeth ar gyfer y safle yw rhoi cyfle i gynhyrchu ffrwythau a llysiau, gan ein bod yn credu, er mwyn cyflawni nodau Cymru a'r DU ar gyfer adferiad byd natur a mynd i'r afael â newid hinsawdd – nodau sydd wedi cael eu mabwysiadu'n rhyngwladol hefyd – fod angen i ni ymdrin â rheoli tir yn wahanol.

Rydym yn deall y galw am dir ar gyfer garddwriaeth fwytadwy ac eisiau dangos yr hyn y gellir ei wneud pan fydd tirfeddianwyr yn barod i sicrhau bod lle ar gael ar gyfer cyfleoedd newydd.

Unwaith y byddwn wedi nodi lefel a natur y diddordeb gan denantiaid a phartneriaid posib, byddwn yn dechrau gweithio ar y gwaith papur cyfreithiol. Ein bwriad fyddai darparu prydles sy'n rhoi sicrwydd deiliadaeth am gyfnod sy'n ddigonol i annog buddsoddiad yn y tir a'r pridd.
Mae Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed yn dirfeddiannwr pragmatig a byddwn yn gweithio gyda'r ymgeisydd cywir i'w cefnogi gyda dechrau'r busnes a marchnata. Dyma gyfle cyffrous.
Mae gennym ni ddata maetholion pridd ar gyfer y safle.

**Lleoliad y Safle**
Fferm Pentwyn, Ffordd Llanbister, Powys, LD1 5UT.

**Lluniau o'r safle**

**Y Byngalo**
Mae Byngalo Pentwyn wedi'i leoli ger y lôn a gynhelir gan y cyngor sy'n arwain i Fferm Pentwyn, ac mae mewn man hyfryd. Mae'r byngalo o adeiladwaith brics ac iddo do teils. Mae'r breswylfa yn destun amod Deiliadaeth Amaethyddol pan roddwyd caniatâd cynllunio iddi yn 1979. Mae'r eiddo'n cynnwys: Neuadd/Iwtiliti (2.4m x 1.9m) Cegin WC gyda Rayburn (5.5m x 3.6m) Lolfa Pantry gyda lle tân agored (5.5m x 3.7m) Ystafell wely sengl (3.1m x 2.4m) Ystafell wely ddwbl (4.1m x 3.3m) Ystafell wely ddwbl (4.35m x 3.07m) WV ar wahân (1.8m x 1.1m) Ystafell ymolchi (1.8m x 1.6m) Neuadd Flaen â Thrydan o'r Prif Gyflenwad, cyflenwad dŵr preifat a draenio tanc septig preifat. Y tu allan: tramwyfa raean fawr gyda gardd lawnt, ynghyd â llwyn haenog a gardd sy'n cynnwys borderi blodau.

**Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed**
Mae Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed yn rhan o Ymddiriedolaeth Natur y DU; mae'n Ymddiriedolaeth annibynnol a gafodd ei sefydlu yn 1987. Ynghyd â'n haelodau a'n gwirfoddolwyr, rydym yn gweithio i ddiogelu bywyd gwyllt ledled Sir Faesyfed, a hynny ar ein 19 gwarchodfa natur a thrwy weithio gydag eraill.
Rydym yn rheoli dros 400 hectar o dir ar gyfer bywyd gwyllt, sy'n cynnwys fferm fynyddig Gilfach, a Bryn Tylcau, glaswelltir llawn rhywogaeth, a ffridd a glaswelltir Rhos, ger Pentwyn. Mae gan bedwar o'n safleoedd statws SSSI neu ddynodiadau amgylcheddol eraill. Rydym yn gweithio gydag eraill i'w hannog a'u helpu i reoli eu tir, o erddi i ffermydd a mannau gwyrdd cymunedol, er lles bywyd gwyllt. Yn ddiweddar, fe wnaethom gynnal digwyddiad yn hyrwyddo cadawraeth a daeth 25 o ffermwyr lleol ynghyd.

Mae gennym dros 150 o wirfoddolwyr, a grŵp o wirfoddolwyr sy'n cael ei fynychu'n rheolaidd ar ddydd Mawrth gan 12 o bobl ar gyfartaledd. Gyda'n gweithiwr ystad, maent yn rheoli ein gwarchodfeydd ar gyfer bywyd gwyllt a mynediad. Bob blwyddyn maent yn cyfrannu tua 2000 o oriau o amser. Yn gyfnewid byddant yn ennill sgiliau, cyfeillgarwch, ymarfer corff a gwybodaeth am y buddion amgylcheddol y maent yn eu cyflwyno.

Rydym yn dysgu pobl o bob oed i ofalu am fywyd gwyllt, drwy ein gwaith gydag ysgolion a phobl ifanc, sesiynau hyfforddi a'n digwyddiadau teuluol. Er enghraifft, rydym yn cynnal grŵp ieuenctid gweithgar, gyda 12 aelod o'r gymuned leol, sy'n awyddus i ddysgu mwy am ddylanwadu ar newid yn y gymuned.

Rydym yn ymgyrchu i godi ymwybyddiaeth am faterion sy'n effeithio ar fywyd gwyllt yn lleol ac yn genedlaethol. Rydym yn gweithio'n lleol i sicrhau bod bywyd gwyllt yn cael ei ddiogelu. Ar hyn o bryd rydym yn cefnogi newid cadarnhaol i afon Gwy.

Mae'r blaenoriaethau presennol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth, a nodwyd yn strategaeth gyfunol yr Ymddirideolaeth Natur ac sy'n cyd-fynd ag amcanion amgylcheddol cenedlaethol, yn cynnwys gweithio gyda chymunedau a thirfeddianwyr ledled Powys, drwy ein prosiect Cysylltiadau Gwyrdd, gan gynnig cyngor i dirfeddianwyr, cefnogi'r awdurdod lleol i wneud mwy dros natur, a galluogi cymunedau i weithredu'n gadarnhaol dros fyd natur. Rydym hefyd yn gweithio gydag artist preswyl i hyrwyddo manteision a hanes unigryw glaswelltir Rhos, cynefin sylweddol i Gymru.

Ein gweledigaeth yw cael mwy o natur ym mhob man a'n cenhadaeth yw esgor ar adferiad natur drwy weithredu'n lleol. Mae hyn yn rhan o Gynllun Strategol newydd yr Ymddiriedolaeth Natur ar gyfer y cyfnod 2021-2026. Fel sefydliad (a mudiad Ymddiriedolaeth Natur) mae gennym dri Nod.
1. Rhoi Natur mewn Adferiad
2. Grymuso pobl i weithredu dros natur a
3. Chyflawni Sero Net erbyn 2030